Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (Cymru)

Diolch yn fawr am ddangos eich diddordeb yn y rôl Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant. Diben y pecyn hwn yw cynnig yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i benderfynu os ydych chi am ymgeisio am y rôl hon ai pheidio. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch gyda Rheolwr ein Rhaglen Beverley Gormley ar beverley.gormley@heritagetrustnetwork.org.uk

Rôl

Mae'r cyfle hwn yn arbennig ar gyfer myfyriwr sydd wedi graddio'n ddiweddar neu unigolyn sy'n dychwelyd i'r gwaith i ennill profiad gwerthfawr yn y sector treftadaeth gymunedol drwy gefnogi ein gwaith yma yng Nghymru.

Byddai'r rôl hon yn ddelfrydol i rywun sy'n frwd dros dreftadaeth ar lawr gwlad ac sy'n chwilio am eu rôl broffesiynol gyntaf yn y sector treftadaeth. Fel rhan o'r gwaith bydd gofyn ichi gydweithio gyda phobl sydd ynghlwm â mudiadau yn hytrach na'r cyhoedd. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar gynorthwyo'r mudiadau hynny i lwyddo drwy ddysgu gan gyfoedion, rhwydweithio a manteisio ar adnoddau. Mae ein rhwydwaith yn unigryw gan gynnig cymorth i holl ranbarthau'r DU.

Rydym yn cynnig cymorth i'n haelodau i ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer ac adfer adeiladau hanesyddol ond rydym yn cyflawni llawer mwy na hynny mewn gwirionedd. Rydym yn sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol, i ymgysylltu'n ehangach, i gyfrannu tuag at adfer lleoedd, datblygu cymunedol, creu swyddi a hybu llesiant eu cymuned. Mae rhagor o wybodaeth am y Rhwydwaith ar dudalen 5.

Dyma enghreifftiau o rai o aelodau'r Rhwydwaith yma yng Nghymru:

Circus Eruption

Lido Brynaman

Menter Ty'n Llan

Haverhub

Sefydliad er Treftadaeth Iddewig

Yr Eglwys Norwyaidd, Bae Caerdydd

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn cydnabod gwerth pobl o bob cefndir tuag at y sector treftadaeth ac ein mudiad ni. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n sicrhau bod ein dull o rannu cyngor ynghylch adfer treftadaeth gymunedol yn adlewyrchu hanes, diwylliannau a diddordebau amrywiol yr ardaloedd rydym yn gweithio ynddyn nhw. Bydd meddu ar weithlu amrywiol a chynrychioliadol, lle caiff safbwyntiau eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo, yn fodd inni gyflawni hyn. Mae Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn ymroi i gynnig cyfleoedd cyfartal. Os oes gennych chi anabledd, byddwn yn fwy na bodlon trafod addasiadau rhesymol er mwyn ichi allu cyflawni'r rôl.

Cyllid

Mae'r swydd hon wedi'i hariannu gan Cadw a Chronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Mae ein grant 2023-24 gan Cadw yn ogystal â'u chefnogaeth tuag at y swydd hon yn sicrhau bod modd inni ymrwymo i ddatblygu fforwm ieuenctid yng Nghymru, cydlynu gwirfoddoli digidol, hyrwyddo ymddiriedolwyr ifanc / dan hyfforddiant, trefnu digwyddiadau dysgu a rhwydweithio ar gyfer ein haelodau a datblygu ymddiriedolaethau aml-brosiect strategol yng Nghymru.

Rhwydweithiau Hanfodol: Mae Hybu Cydnerthedd ac Amrywioldeb lleol yn brosiect datblygu a chydnerth sylweddol ar gyfer Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth, ein haelodau a threftadaeth y DU. Mae wedi'i ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym wrthi'n datblygu'r prosiect a bydd ar waith tan fis Mawrth 2024.

Sut i ymgeisio

1. Darllenwch yr holl wybodaeth yn y pecyn hwn.
2. Cwblhewch ffurflen gais ar-lein erbyn 12.00 hanner dydd ar Fedi'r 13eg 2023. Os na allwch chi agor yr hyperddolen, pastiwch y ddolen ganlynol ym mlwch eich porwr: www.tfaforms.com/5083119
3. Cwblhewch y ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal ar wahân ar-lein a dienw erbyn yr un dyddiad. Os na allwch chi agor yr hyperddolen, pastiwch y ddolen ganlynol ym mlwch eich porwr: www.tfaforms.com/5083131

Os yw cwblhau ffurflen ar-lein yn peri anhawster ichi, cofiwch gysylltu gyda ni. Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu geirda gan gyflogwr, rheolwr gwirfoddoli neu diwtor blaenorol.

Amserlen recriwtio

Awst y 30ain 2023	Hysbysebu'r swydd
Medi'r 13eg 2023	Dyddiad cau i ymgeisio am 12 hanner dydd
Wythnos sy'n cychwyn ar Fedi'r 18fed 2023	Cyfweliadau (ar-lein)
Hydref y 1af	Dyddiad cychwyn a ffefrir (neu cyn gynted â phosibl wedi hynny)

Crynodeb o fanylion y swydd

Teitl y Swydd: Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (Cymru)

Cyflog: £21,000 y flwyddyn Pro rata.

Oriau: Llawn amser (37 awr yr wythnos)

Yn atebol i: Rheolwr y Rhaglen

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn pro rata, gan gynnwys gwyliau cyhoeddus a 3 diwrnod lle bydd y mudiad ar gau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Pensiwn: Yn unol â'r gofynion cofrestru awtomatig statudol

Lleoliad: Gweithio o adref neu weithle ar y cyd y cytunwyd arni unrhyw le yng Nghymru. Mae'n rhaid i ddeiliad y swydd fod yn byw yng Nghymru yn ystod y cyfnod dan hyfforddiant.

Daliadaeth Swydd: Cyfnod o chwe mis dan hyfforddiant gyda chyfnod prawf o fis (mae'n rhaid i'r cyfnod dan hyfforddiant ddod i ben erbyn Mawrth yr 31ain 2024)

Prif Gyfrifoldebau

1. Cefnogi'r Prif Weithredwr, yr Ymddiriedolwr dros Gymru a'r Rheolwr Rhaglen i gynllunio, hyrwyddo, trefnu a chyflawni digwyddiadau a rhaglenni hyfforddiant, ar-lein ac wyneb yn wyneb
2. Cefnogi'r Prif Weithredwr, yr Ymddiriedolwr dros Gymru a'r Rheolwr Rhaglen i gynllunio a chyflawni cyfarfodydd pwyllgor Cymru, a recriwtio aelodau newydd i'r pwyllgor
3. Sefydlu a chefnogi Fforwm Ieuenctid Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth a dylunio rhaglen gweithgarwch ar y cyd â nhw
4. Recriwtio gwirfoddolwyr o Gymru i ffrwd gwirfoddoli Arwyr Digidol y Rhwydwaith
5. Cefnogi lleiafswm o bum aelod o'r Rhwydwaith yng Nghymru i recriwtio ymddiriedolwyr ifanc / dan hyfforddiant i'w byrddau
6. Cydweithio gyda Phrifysgolion yng Nghymru i hyrwyddo aelodaeth myfyrwyr o'r Rhwydwaith a gwirfoddoli gydag ein haelodau (gan gynnwys ein ffrwd gwirfoddoli Arwyr Digidol)
7. Adolygu a diweddaru cynnwys y Pecyn cymorth presennol yn ogystal ag ymchwilio a datblygu cynnwys newydd. Helpu i gomisiynu cyfieithiadau o gynnwys penodol i'r Gymraeg.
8. Ymchwilio a chreu cynnwys ar gyfer gwefan, digwyddiadau, newyddlenni, cymuned ar-lein a chyfryngau cymdeithasol y Rhwydwaith, gan gynnwys ymchwil ar-lein, cyfweliadau dros y ffôn ac ar y safle, ffotograffiaeth a ffilmio
9. Ategu'r gwaith o brosesu ac ymateb i ymholiadau gwaith achos gan aelodau, anfon ymholiadau ymlaen at arbenigwyr perthnasol yn y rhwydwaith a bwrw iddi i ganfod eu penderfyniad
10. Cyflawni ymchwil a chyflwyno data i ddatblygu ein rhestr o aelodau a phartneriaid arfaethedig yng Nghymru.

Cyfrifoldebau cyffredinol

11. Cydweithio'n agos gyda'r tîm staff a'r ymddiriedolwyr i sicrhau caiff amcanion a deilliannau'r Rhwydweithiau Hanfodol eu cyflawni
12. Helpu i hyrwyddo adfer ac ail-ddefnyddio safleoedd hanesyddol ledled Cymru, yn enwedig gan fudiadau cymunedol nid-er-elw.
13. Sicrhau bod modd i aelodau fanteisio ar wasanaethau a bod yr holl ddeunydd cyfathrebu yn eglur ac wedi'u cynnal i safon uchel
14. Defnyddio system ddigidol ganolog a gwefan y Rhwydwaith gan gymryd rhan yng nghyfarfodydd a gweithgareddau ar y cyd tîm staff y Rhwydwaith yn y DU
15. Llunio adroddiadau a gaiff eu cyflwyno yn adroddiadau cynnydd a phapurau bwrdd Cadw a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
16. Sicrhau ein bod yn cydnabod ac yn diolch i'n holl arianwyr yn ein deunydd cyfathrebu ac ynghlwm â'n holl weithgareddau
17. Mynychu cynhadledd flynyddol y Rhwydwaith yn Newcastle ar Hydref y 15fed, 16eg, 17eg 2023
18. Adolygu cymuned ar-lein y Rhwydwaith a chyflwyno sylwadau er mwyn ysgogi sgyrsiau pellach.

Hyfforddiant

Byddwn yn cydweithio gyda chi i gyflawni asesiad o'ch anghenion hyfforddiant a'ch uchelgeisiau, llunio cynllun dysgu ar gyfer eich cyfnod dan hyfforddiant a monitro eich cynnydd. Byddwch yn cyflawni'r cynllun drwy'r canlynol:

- Dysgu profiadol yn y swydd drwy eich gwaith gyda'r Rhwydwaith
- Mynychu ein digwyddiadau a rhaglenni dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Sesiynau hyfforddiant mewnol arbennig gan aelodau o'r tîm neu arbenigwyr allanol
- Manteisio ar ein cronfa o adnoddau gan gynnwys recordiadau fideo o ddigwyddiadau blaenorol

- Dysgu hunan-dywys
- Ymweld ag aelodau
- Mynychu digwyddiadau a hyfforddiant sydd wedi'u trefnu gan fudiadau eraill

Manyleb Person

Mae croeso i unrhyw un sydd naill ai yn byw yng Nghymru neu sy'n awyddus i ddychwelyd i Gymru i weithio yn y sector treftadaeth fanteisio ar y rôl dan hyfforddiant hon. *Dydy'r gallu i siarad ac ysgrifennu'r Gymraeg ddim yn ofyniad hanfodol ond fe gaiff ei sgorio fel rhan o'r broses dewis a dethol.

Hanfodol	Dymunol
Hyfforddiant, profiad a chymwysterau	
Cymhwyster lefel gradd neu gymwysterau neu brofiad cyfwerth	Trwydded yrru lawn y DU. Nid ydym yn darparu cerbyd ond byddwn yn talu lwfans milltiroedd. Profiad mewn rôl gymunedol neu ofal cwsmer â thâl / gwirfoddol lle'r oedd gofyn ichi gydweithio gydag ystod amrywiol o bobl
Gwybodaeth a sgiliau	
Sgiliau rhyngbersonol da gyda'r gallu i gydweithio gydag ystod amrywiol o bobl Sgiliau trefnu da gan gynnwys y gallu i gadw cofnodion manwl Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig gan gynnwys y gallu i addasu arddulliau cyfathrebu i gyd-fynd ag amrywiaeth o amgylchiadau Sgiliau digidol da gan gynnwys defnyddio cyfryngau cymdeithasol	*Yn ysgrifennu ac yn siarad Cymraeg Sgiliau ymchwil Dealltwriaeth o'r canlynol: • ymgysylltu cymunedol gyda lleoedd • manteision yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer pobl a lleoedd • y broses datblygu a'r system cynllunio • mudiadau, polisïau ac arferion yr amgylchedd hanesyddol • materion ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector treftadaeth • y sector gwirfoddol a chymunedol
Ymddygiadau a gwerthoedd	
Ymrwymiad tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Diddordeb mewn, ac ymrwymiad tuag at, adfer, treftadaeth a chynaliadwyedd yn yr amgylchedd adeiledig Yn gweld ei waith ac yn mynd ato ac yn weithiwr caled Creadigol a hyblyg	
Angenrheidiol	
Mae'r ymgeisydd mewn cyfnod yn eu gyrfa lle byddai'r swydd dan hyfforddiant yn gwneud newid sylweddol i'w ddatblygiad	Mae'r ymgeisydd o grŵp difreintiedig neu o grŵp a dangynrychiolir.

Mwy o wybodaeth am y Rhwydwaith

Mae sawl un yn cael modd i fyw o weld adeiladau a mannau hanesyddol wedi'u hadfywio. Mae'n adfer ymdeimlad o falchder a hunaniaeth leol ac yn creu swyddi, gweithleoedd, atyniadau ymwelwyr, cyfleusterau addysg, canolfannau celfyddydau a mwy. Mae miloedd o bobl yn bwrw iddi i gyflawni'r gwaith anhygoel hwn ym mhob cwr o'r DU, naill ai yn broffesiynol neu'n wirfoddol.

Mae'r Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn gorff aelodaeth ar gyfer mudiadau cymunedol annibynnol, elusennau a mentrau cymdeithasol sy'n achub, adfer ac yn rheoli adeiladau hanesyddol, parciau, gerddi, camlesi a rheilffyrdd. Ymysg ein haelodau mae mudiadau sydd wedi'u sefydlu'n benodol er mwyn achub safleoedd treftadaeth ynghyd â mudiadau cymunedol sy'n cyflawni mathau eraill o wasanaethau ac sydd wedi'u dewis i weithredu o adeiladau a mannau hanesyddol. Rydym hefyd yn croesawu unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol sy'n cefnogi gweithrediadau treftadaeth lleol. Gyda'n gilydd rydym yn mynd ati i drefnu cynadleddau, ymweliadau safle, cyfarfodydd ac adnoddau ar-lein lle gallwn rwydweithio a dysgu gan ein gilydd ynghyd â chwrdd ag arbenigwyr ac arianwyr.

Rydym yn…

- Annog pobl i fod ynghlwm â'r gwaith achub adeiladau a mannau treftadaeth lleol drwy ffurfio mudiadau cymunedol newydd neu weithredu ar ran mudiadau presennol.
- Cefnogi'r mudiadau hyn i adfer ac ail-ddefnyddio treftadaeth leol drwy gynnig gwybodaeth, cyngor, rhwydweithio a dysgu rhwng cyfoedion
- Hyrwyddo'r gwaith a chodi ymwybyddiaeth o fudiadau treftadaeth cymunedol ynghyd ag amlygu'r llu o fanteision cyhoeddus maen nhw'n eu cynnig
- Eirioli dros amgylchedd deddfwriaethol, polisi a chyllid sy'n hwyluso gweithredu ar lawr gwlad ar ran treftadaeth.

Mae'r Rhwydwaith yn prysur dyfu a chanddo bron i 800 o aelodau erbyn hyn. Mae gennym ni dîm staff o wyth ar hyn o bryd:

David Tittle, Prif Weithredwr

Vicki Cox, Swyddog Aelodaeth

Beverley Gormley, Rheolwr Rhaglen

Sarah Pearce, Swyddog Datblygu ar gyfer Yr Alban

Claire-Rose Canavan, Rheolwr Prosiect Arwyr Digidol

Leona Wilson, Swyddog Prosiect Allgymorth

Jessica van der Drift, Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant

Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (Yr Alban) – rydym wrthi'n recriwtio

Mae'r Rhwydwaith wedi'i lywodraethu gan fwrdd o gyfarwyddwyr (ymddiriedolwyr) sef 12 o bobl gan gynnwys rhai o'n haelodau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y maes. Mae ymddiriedolwr arbennig o bob un o bedair gwlad y DU yn aelodau o'r bwrdd. Adam Hitchings, sy'n gweithio i'r Gronfa Treftadaeth Pensaernïol, yw ein hymddiriedolwr ar ran Cymru ar hyn o bryd. Mae Karen Chalk o Circus Eruption yn Abertawe hefyd yn ymddiriedolwr.